

WILLIAMS, THOMAS OSWALD ('ap Gwarnant'; 1888 - 1965), gweinidog (U), llenor, bardd, g r cyhoeddus

Enw: Thomas Oswald Williams

Ffugenw: ap Gwarnant

Dyddiad geni: 1888

Dyddiad marw: 1965

Priod: Daisy Williams (née Thomas)

Rhiant: Rachel Williams

Rhiant: Gwarnant Williams

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog (U), llenor, bardd, g r cyhoeddus

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: David Elwyn James Davies

Ganwyd 10 Mai 1888, yn un o bedwar o blant Rachel a Gwarnant Williams, ffermwr, bardd a g r cyhoeddus, fferm Gwarnant, plwyf Llanwenog, Ceredigion. Cafodd ei addysg yn ysgol Cwrtnewydd ac ysgol Dafydd Evans, Cribyn (1901-02); a chael ei brentisio'n ddisgybl athro; am gyfnod o ddeng mlynedd bu'n is-athro yn ysgol Blaenau, Gors-goch, ac ysgol Cwrtnewydd. Yn 1911, ' heb awr o ysgol eilradd ' aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, lle graddiodd yn B.A. mewn Cymraeg (dosbarth cyntaf) yn 1915, o dan yr [Athro Edward Anwyl \(Bywg., 12\)](#) yn ei flynyddoedd cyntaf; yn 1923 enillodd radd M.A. am draethawd ar y ' Mudiad llenyddol yng ngorllewin Cymru yn rhan fore'r ddeunawfed ganrif ynghyd â'i gysylltiadau crefyddol '. Gofalodd am Gapel y Cwm am gyfnod byr wedi gadael coleg, ac eglwysi Brondeifi a Chaeronnen am dair blynedd cyn derbyn galwad yn 1918 i fod yn weinidog swyddogol arnynt, lle'r arhosodd tan ei farw yn 1963.

Yn ystod dyddiau coleg golygodd *Y Wawr*, cylchgrawn myfyrwyr Cymraeg coleg Aberystwyth; bu'n olygydd *Yr Ymofynnydd*, cylchgrawn Cymraeg yr Undodiaid yng Nghymru, o Ionawr 1926 hyd Rhagfyr 1933, ac yn 1937 yn ystod salwch ei olynydd, y Parch. T. L. Jones; gwasanaethodd ar bwyllgor ymghyngori'r *Ymofynnydd* hyd ddiwedd ei oes, a chyfrannodd yn gyson iddo o dan ei enw ei hun, ' T.O.W. ', ' O ', ' Ap Gwarnant ', ' E.W.O. ', a ' Na N. ', ' Gwalch Ogwr ', etc. Ysgrifennodd gyfres ar hanes ' Cewri'r enwad ', ' Cartrefi'r enwad ' a ' Chapeli'r enwad '; cyhoeddodd ran o'r gyfres olaf yn llyfryn poblogaidd, *Hanes cynulleidfaoedd Undodaidd sir Aberteifi* (1930); yn yr un cylchgrawn cyhoeddodd gyfres o ysgrifau beirniadol ar ei gyfoeswyr, ' Gw r blaenllaw yr enwad ', o dan y ffugenw ' Gwalch Ogwr '. Cyhoeddodd *Hanes Caeronnen* yn 1954, a'i gyfrol gynhwysfawr, *Undodiaeth a rhyddid meddwl*, yn 1963. Traddododd amryw o ddarlithiau cyhoeddus a pherfformiwyd o leiaf un o'i ddramâu, *Gwynoedd croes*. Bu'n ' eisteddfoda tipynach '; cipiodd gadair eisteddfodau'r colegau ddwywaith a rhestrwyd ef ' yn uchel yng nghystadleuaeth y gadair a'r goron fwy nag unwaith '; dywed iddo ennill amryw wobrau am farddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac un am draethawd ar ' Ryddid meddwl yng Nghymru '. Cydnabyddid ef yn ysgolhaig ac yr oedd glendid ei iaith ystyth yn ddiarhebol, eithr ni fu heb ei feirniadu, fel un o brif olygwyr y *Perlau Moliant* diwygiedig a ymddangosodd yn 1929 (gweler *Ymof.*, 1928, 195). Er na fedrai nodyn yr oedd ' miwsig y nefoedd ' yn ei enaid, a chyfansoddodd nifer o emynau pert ac eneiniedig; nid oedd ei arddull fel emynydd yn annhebyg i [lolo Morganwg](#), yn enwedig pan ganai am fyd natur ac i'r plant, fel yr emynau hynny: ' Melys rhodio 'nglas y gwanwyn ', ac ' Anian wena 'nglas y dolydd '. Ef oedd prif hanesydd yr Undodiaid yng Nghymru ac ni lwyddodd neb i groniclo cymaint am y mudiad er mwyn, ys dywed, ' i'r dô sydd yn codi wybod am ein cariad at egwyddor a gwirionedd '. Fel hanesydd da mynnai fynd at ffynhonnell y ffeithiau, a chadwai feddwl agored pan na fyddai'r wybodaeth honno'n ddigonol; gwrthodai gredu fod ' y dysgedigion wedi traethu y cwbl ' am [lolo Morganwg](#) (*Ymof.*, 1925, 139) ac edrychai ymlaen pan gâi 'ddigon o brofion' i ddatgelu ochr arall 'Troed Allan' y Llwyn (*Ymof.*, 1929, 111).

Yr oedd yn gawr o gorff ac argyhoeddiad a rhedai chw s yr un arddeliad dros ei ruddiau wrth egluro rhesymeg dadleuon ei ffydd, fel wrth fynegi'i deimlad am 'Iesu, Ffrind Pechadur'.

Ni fu mewn coleg diwinyddol fel myfyriwr, er bod lle i gredu y gwnaethai athro da pe rhoddasid cyfle iddo, fel y dymunasai, yng Ngholeg Caerfyrddin. Bu'n llywydd Cymdeithas Undodaidd deheudir Cymru am ddwy fl. (1923-5), a gwnaethpwyd ef yn aelod anrhydeddus o Gyngor Cymanfa Gyffredinol (General Assembly) ei enwad yn 1963.

Fel g r cyhoeddus yn ei dref, ei ardal a'i sir, bu ei wasanaeth yn gyfoethog: bu'n aelod o gyngor bwrdeistref Llanbedr (1934-63), ac yn faer yr un fwrdeistref bedair gwaith (1940-41; 1941-42; 1950-51; 1959-60); yn 1954 fe'i hanrhydeddwyd â rhyddfrint y fwrdeistref. Cynrychiolodd y fwrdeistref ar lys llywodraethwyr Coleg Prifysgol Cymru ac ar gyngor sir Aberteifi yn 1951, ond buasai'n aelod cyfetholedig o bwyllgor addysg y sir cyn hynny. Gwasanaethodd fel cadeirydd amryw bwyllgorau pan oedd yn aelod o'r cyngor sir, gan gynnwys pwyllgor lles a phwyllgor cynllunio Ceredigion, pwyllgor cynllunio

cylch Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan, pwyllgor ariannol a phwrpasau eraill, pwyllgor gwirfoddol yr hen bobl, a rheolwyr ysgol uwchradd Llanbedr. Ceisiodd gael ' Ysgolion Uwchradd Aberteifi i ddysgu pob testun drwy gyfrwng y Gymraeg ', a llwyddodd i sefydlu cartref henoed, 'Hafan Deg', i Lanbedr Pont Steffan a'r cylch.

Bu ei briod Daisy (ganwyd Thomas) farw 4 Mai 1965. Bu iddynt ddwy ferch. Bu ef farw yn ysbyty Caerfyrddin 21 Hydref 1965, yn 77 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan.

Awdur

Dr David Elwyn James Davies, (1926 - 1997)

Ffynonellau

Yr Ymofynnydd. (rhifyn coffa), Hydref-Tachwedd 1965

T. O. Williams, *Cae'ronnen - Cellan, Ceredigion. Tri chan mlwyddiant, 1654-1747-1846-1954* (Llanbedr pont Steffan 1954), 47-8

Year book of the Unitarian General Assembly(1966), 105

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28360830](https://www.wikidata.org/wiki/Q28360830)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

